- Os bydd cyflogai â chyfrifoldeb gofal neu riant yn dymuno gwneud cais am drefniadau gweithio hyblyg, dylent wneud hynny o dan Bolisi Gweithio Hyblyg y BBC. Dylent fynd ati i gyflwyno cais cyn dychwelyd o unrhyw fath o absenoldeb y darperir ar ei gyfer yn y polisi hwn.
- Gall rheolwyr wneud cyswllt rhesymol â gweithwyr yn ystod cyfnodau o absenoldeb y darperir ar eu cyfer yn y polisi hwn. Bwriad y cyswllt yw cefnogi lles y gweithiwr a helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am ddatblygiadau cyffredinol yn y gweithle. Dylai'r rheolwr gytuno â'r gweithiwr o ran beth fyddai'r ffordd orau o gysylltu ag ef a pha mor aml y dylid gwneud hynny cyn i'r absenoldeb ddechrau.
- Os bydd contract tymor penodol gweithiwr yn dod i ben yn ystod cyfnod o absenoldeb y darperir ar ei gyfer yn y polisi hwn, ni fydd y rheolwr yn ystyried materion cysylltiedig â'r absenoldeb hwnnw wrth ystyried terfynu neu ymestyn y contract.
- Dylai cyflogeion gyfeirio at **Bensiynau'r BBC** i gael gwybodaeth am gyfraniadau pensiwn yn ystod y gwahanol fathau o gyfnodau absenoldeb a geir yn y polisi hwn.
- Nid yw unigolion ar seibiant gyrfa yn gyflogeion y BBC yn ystod cyfnod y seibiant gyrfa. Felly rhaid i'r unigolyn fod wedi dychwelyd i weithio i'r BBC ar y pwynt cymhwyso perthnasol er mwyn bod yn gymwys i gael darpariaethau tâl ac absenoldeb yn y polisi hwn.

2. Tâl ac Absenoldeb Mamolaeth

a) Beichiogrwydd

Dylai cyflogai hysbysu ei rheolwr ei bod yn feichiog cyn gynted ag y teimla y gall wneud hynny ond ddim hwyrach na'r 15fed wythnos cyn yr Wythnos Esgor Ddisgwylidig (EWC). Dylai'r rheolwr drin yr hysbysiad hwn yn gyfrinachol a dim ond datgelu'r wybodaeth pan fo hynny'n angenrheidiol.

Ar ôl i'r rheolwr gael ei hysbysu, dylid cynnal asesiad risg ac os bydd angen dylai'r amodau gwaith neu'r rôl gael eu haddasu. Os na fydd y cyflogai yn gallu parhau yn ei rôl yn ystod ei beichiogrwydd ac os nad oes gwaith addas arall ar gael, bydd ganddi hawl i gael ei chyflog sylfaenol ynghyd ag unrhyw lwfansau sy'n parhau hyd at ddechrau ei habsenoldeb mamolaeth.

Os oes gan reolwr bryderon am allu cyflogai beichiog i weithio ar unrhyw adeg yn ystod ei beichiogrwydd gall ei chyfeirio at Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol y BBC.

Caniateir amser i ffwrdd â chyflog i gyflogeion i fynychu gofal cyn geni. Mae gan gyflogeion sydd mewn 'perthynas gymwys' â benyw feichiog neu'r plentyn heb ei eni'r hawl i gael amser i ffwrdd gyda thâl i fynychu hyd at ddau apwyntiad cyn geni (diffinnir 'perthynas gymwys' gan [Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014](#)).

Lle bo modd, dylai cyflogeion geisio trefnu apwyntiadau o gwmpas eu hymrwymyiadau gwaith. Gall rheolwyr ofyn am weld y cerdyn apwyntiad perthnasol.

Os yw cyflogai yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch yn ystod ei bechiogrwydd, ni waeth a yw'r salwch yn gysylltiedig â'r bechiogrwydd neu beidio, dylid dilyn y drefn arferol ar gyfer absenoldeb iechyd. Cyfeiriwch at **Bolisi Rheoli Iechyd a Phresenoldeb y BBC**.

Os yw cyflogai yn absennol oherwydd salwch yn syth cyn dyddiad cychwyn arfaethedig ei habsenoldeb mamolaeth, bydd yn cael ei throsglwyddo o absenoldeb iechyd i absenoldeb mamolaeth ar ddyddiad arfaethedig ei chyfnod mamolaeth. Os bydd cyflogai yn absennol o'r gwaith am reswm sy'n gysylltiedig â'i bechiogrwydd ar ôl dechrau'r bedwaredd wythnos cyn yr Wythnos Esgor Ddisgwyliedig (EWC) ond cyn y dyddiad a oedd wedi'i drefnu ar gyfer dechrau'r absenoldeb mamolaeth, bydd yr absenoldeb mamolaeth yn cychwyn ar y diwrnod ar ôl diwrnod cyntaf yr absenoldeb.

Gall cyflogeion ddewis pa bryd maent am gymryd absenoldeb mamolaeth. Os yw cyflogai yn dymuno gweithio ar ôl yr 11eg wythnos cyn yr EWC efallai y bydd yn rhaid iddi gael tystysgrif meddyg sy'n cadarnhau ei bod yn ddigon da i barhau i weithio.

Rhaid i'r cyflogai gyflwyno tystysgrif famolaeth (MAT B1) er mwyn hawlio Absenoldeb a Thâl Mamolaeth y BBC a Statudol.

b) Absenoldeb Mamolaeth

Mae gan bob cyflogai beichiog hawl i gael 52 wythnos o absenoldeb mamolaeth, ni waeth pa mor hir maent wedi gweithio i'r BBC. Gelwir y 26 wythnos gyntaf yn Absenoldeb Mamolaeth Arferol (OML) ac mae'n cynnwys cyfnod o absenoldeb gorfodol o bythefnos ar ôl y dyddiad esgor. Dilyni'r OML yn syth gan yr ail 26 wythnos a elwir yn Absenoldeb Mamolaeth Ychwanegol (AML).

Gall cyflogeion ddewis cychwyn eu habsenoldeb mamolaeth ar unrhyw adeg ar ôl yr 11eg wythnos cyn yr EWC. Os bydd y babi'n cael ei eni cyn y dyddiad cychwyn arfaethedig bydd yr absenoldeb mamolaeth yn cychwyn ar y diwrnod ar ôl yr enedigaeth.

Rhaid i gyflogai roi o leiaf 28 diwrnod o rybudd ei bod yn bwriadu cymryd absenoldeb mamolaeth, gan ddatgan

- ei bod yn feichiog;
- yr wythnos esgor ddisgwyliedig (EWC);
- y dyddiad y mae'n bwriadu cychwyn ei habsenoldeb mamolaeth.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, pan nad oedd yn ymarferol rhoi gwybod am yr uchod yn gynharach, fydd y BBC yn amrywio'r gofynion hysbysu.

Bydd gan gyflogeion hawl i fuddiannau eu telerau ac amodau cyflogaeth, ac eithrio tâl sylfaenol a lwfansau sy'n parhau yn ystod OML ac AML. Caiff yr hawl i gael Tâl Mamolaeth ei nodi isod.

c) Tâl Mamolaeth

(iii) Tâl Mamolaeth y BBC

Tâl Mamolaeth y BBC yw tâl sylfaenol ac unrhyw lwfansau sy'n parhau (nid yw'n cynnwys unrhyw daliadau ychwanegol) am hyd at 18 wythnos a ddilynir gan 21 wythnos o Dâl Mamolaeth Statudol (SMP). Tâl sylfaenol yw'r tâl sylfaenol ar y diwrnod cyflog diwethaf cyn diwedd yr 'wythnos gymhwyso' (y 15^{fed} wythnos cyn yr Wythnos Esgor Ddisgwyliedig (EWC)).

I fod yn gymwys i gael Tâl Mamolaeth y BBC, rhaid i'r cyflogai fodloni'r canlynol ar ddiwedd yr wythnos gymhwyso:

- bod yn un o gyflogeion y BBC; a
- bod wedi'i chyflogi am gyfnod di-dor o 26 wythnos o leiaf.

Mae'n ddigon bod y cyflogai wedi dechrau cael ei chyflogi ar unrhyw adeg yn ystod yr wythnos gyntaf er mwyn crynhoi'r 26 wythnos o wasanaeth sy'n ofynnol. Rhaid i'r gwasanaeth di-dor ymestyn i'r wythnos gymhwyso ond nid oes yn rhaid i'r cyflogai fod wedi'i chyflogi am yr wythnos honno i gyd.

Mae Tâl Mamolaeth y BBC yn cynnwys y Tâl Mamolaeth Statudol (SMP).

(iv) Tâl Mamolaeth Statudol

Mae'r meini prawf cymhwyso ar gyfer Tâl Mamolaeth Statudol yr un fath â'r rhai ar gyfer Tâl Mamolaeth y BBC uchod. Yn ogystal â hynny, rhaid i'r cyflogai ennill mwy na'r Terfyn Enillion Isaf a bennir gan y Llywodraeth. Os na fydd y cyflogai yn gymwys i gael Taliad Mamolaeth y BBC na Thaliad Mamolaeth Statudol efallai y bydd y cyflogai yn gallu hawlio Lwfans Mamolaeth gan y wladwriaeth.

Telir Tâl Mamolaeth Statudol (SMP) ar gyfradd o 90% o enillion cyfartalog am chwe wythnos gyntaf yr absenoldeb mamolaeth a'r lleiaf o naill ai'r gyfradd SMP wythnosol neu 90% o enillion wythnosol cyfartalog am y 33 wythnos ddilynol.

Enillion wythnosol cyfartalog yw'r enillion gros cyfartalog dros gyfnod o wyth wythnos o leiaf hyd at y diwrnod cyflog olaf cyn diwedd yr wythnos gymhwyso, ac yn cynnwys y diwrnod hwnnw.

Os yw'r cyfrifiad ar gyfer chwe wythnos gyntaf yr SMP yn arwain at daliad uwch na Thaliad Mamolaeth y BBC yna telir y taliad uwch.

Bydd unrhyw absenoldeb mamolaeth ar ôl 39 wythnos yn ddi-dâl. Os bydd y contract cyflogaeth yn terfynu cyn y 18 wythnos yna, dim ond hyd at ddyddiad terfynu'r contract y bydd Tâl Mamolaeth y BBC yn daladwy. Fodd bynnag, bydd unrhyw hawl i gael SMP yn parhau y tu hwnt i'r dyddiad yma.

Bydd Taliad Mamolaeth y BBC ac SMP ill dau yn dechrau ar yr un diwrnod sef y diwrnod pan fydd yr absenoldeb mamolaeth yn cychwyn.

d) Dychwelyd i'r Gwaith

Gall cyflogai ddewis pa bryd y mae am ddychwelyd o'i absenoldeb mamolaeth ar ôl y cyfnod o absenoldeb mamolaeth gorfodol sy'n para am bythefnos ar ôl dyddiad geni'r plentyn.

Os bydd cyflogai yn dymuno dychwelyd i weithio yn gynharach na'r 52 wythnos, rhaid iddi roi rhybudd ysgrifenedig o 8 wythnos i'r BBC yn nodi'r dyddiad y mae am ddychwelyd arno.

Os na fydd cyflogai yn gallu dychwelyd i weithio ar ddiwedd yr absenoldeb mamolaeth oherwydd salwch, dylid dilyn y gweithdrefnau absenoldeb oherwydd salwch arferol. Gweler **Polisi Rheoli Iechyd ac Absenoldeb y BBC**.

Mae gan gyflogai sy'n dychwelyd ar ôl OML hawl i ddychwelyd i'r un swydd ar yr un telerau ac amodau oni bai fod sefyllfa o ddileu swydd wedi codi. Mae gan gyflogai sy'n dychwelyd ar ôl AML yr un hawl i ddychwelyd ag yn achos OML oni bai fod hynny ddim yn ymarferol bosibl. Yn yr achosion hyn mae gan y cyflogai hawl i gael cynnig swydd arall addas ar delerau ac amodau nad ydynt yn llai ffafriol.

Dylai rheolwyr gynnal asesiad risg pan fydd y cyflogai yn dychwelyd i weithio yn enwedig os yw'r cyflogai yn bwydo ar y fron.

e) Marw-enedigaethau

Os bydd beichiogrwydd yn diweddgu gyda marw-enedigaeth neu gamesgoriad yn gynharach na 24 wythnos o'r beichiogrwydd, ni fydd Tâl Mamolaeth Statudol (SMP) yn daladwy. Dylai unrhyw anallu i weithio o ganlyniad gael ei drin fel absenoldeb oherwydd salwch sy'n ymwneud â beichiogrwydd. Os bydd ceir marw-enedigaeth ar ôl 24 wythnos o'r beichiogrwydd, bydd yr absenoldeb mamolaeth yn cychwyn y diwrnod ar ôl esgor (os nad yw wedi cychwyn eisoes) a bydd y gweithdrefnau arferol ar gyfer tâl ac absenoldeb mamolaeth yn berthnasol.

3. Tâl ac Absenoldeb Mabwysiadu

b) Absenoldeb Mabwysiadu

Bydd cyflogeion sydd wedi cael eu paru â phlentyn i'w fabwysiadu (gan asiantaeth fabwysiadu gymeradwy yn y DU neu dramor), lle mai nhw yw'r prif ofalwr, yn gymwys i gael Absenoldeb Mabwysiadu o hyd at 52 wythnos.

Rhaid i gyflogeion gyflwyno 'Tystysgrif Baru' os ydynt yn mabwysiadu yn y DU, a fydd ar gael gan eu hasiantaeth fabwysiadu, neu 'Hysbysiad Swyddogol', os ydynt yn mabwysiadu o dramor, sy'n cael ei gyhoeddi gan neu ar ran yr awdurdod perthnasol yn y DU, er mwyn cael hawl i Absenoldeb Mabwysiadu a Thâl y BBC.

Gall rhieni maeth sy'n bwriadu mabwysiadu o dan gynllun llywodraeth leol a rhieni benthyg fod yn gymwys i Absenoldeb a Thâl Mabwysiadu, gweler yr adrannau perthnasol isod.

Mae'r darpariaethau ar gyfer Tâl Mabwysiadu'r BBC yn debyg i'r rhai ar gyfer mamolaeth. Gall cyflogeion cymwys gymryd hyd at 26 wythnos o Absenoldeb Mabwysiadu Arferol (OAL) a ddilynir gan 26 wythnos o Absenoldeb Mabwysiadu Ychwanegol (AAL).

(v) Os ydynt yn mabwysiadu yn y DU

Rhaid i gyflogeion hysbysu'r BBC o fewn saith diwrnod ar ôl cael eu hysbysu gan asiantaeth fabwysiadu gymeradwy o'r canlynol:

- eu bod wedi cael eu ‘paru’ â phlentyn i’w fabwysiadu;
- y dyddiad pan ddisgwylir i’r plentyn gael ei drosglwyddo i’w gofal;
- y dyddiad maent yn bwriadu i’w habsenoldeb mabwysiadu ddechrau.

Gall y cyflogai ddewis pa bryd y mae am gychwyn ei Absenoldeb Mabwysiadu, naill ai o ddyddiad trosglwyddo’r plentyn neu o ddyddiad hyd at 14 diwrnod cyn y dyddiad y disgwylir i’r plentyn gael ei drosglwyddo i’w ofal.

(vi) Os ydynt yn mabwysiadu o dramor

Yn gyntaf, mae’n rhaid i gyflogeion roi gwybod i’r BBC cyn pen 28 diwrnod i dderbyn ‘Hysbysiad Swydddogol’ am y canlynol:

- y dyddiad pan gafwyd yr hysbysiad swydddogol;
- y dyddiad pan ddisgwylir i’r plentyn gyrraedd y DU.

Rhaid i’r cyflogai wedyn roi o leiaf 28 diwrnod o rybudd ynghylch pa bryd y mae’n dymuno cychwyn yr absenoldeb mabwysiadu.

Gall y cyflogai ddewis cychwyn ei Absenoldeb Mabwysiadu naill ai ar y dyddiad pan fydd y plentyn yn cyrraedd y DU neu ar ddyddiad nad yw’n hwyrach na 28 diwrnod ar ôl y dyddiad pan gyrhaeddodd y plentyn y DU.

(vii) Tâl Mabwysiadu’r BBC

Tâl Mabwysiadu’r BBC yw cyflog sylfaenol ac unrhyw lwfansau sy’n parhau (nid yw’n cynnwys unrhyw daliadau ychwanegol) am hyd at 18 wythnos a ddilynir gan 21 wythnos o Dâl Mabwysiadu Statudol (SAP). Tâl sylfaenol yw’r tâl sylfaenol ar y diwrnod cyflog diwethaf cyn i’r cyflogai roi rhybudd o fwriad i’w gyflogwr ei fod yn bwriadu cymryd absenoldeb mabwysiadu.

Er mwyn bod yn gymwys i gael Tâl Mabwysiadu’r BBC, rhaid i’r cyflogai, yn yr wythnos y rhoddir gwybod iddo ei fod wedi cael ei baru â phlentyn (yr ‘Wythnos Baru’), fodloni’r canlynol:

- bod yn un o gyflogeion y BBC; a
- bod wedi’i gyflogi am gyfnod di-dor o 26 wythnos o leiaf.

Mae’n ddigon bod y cyflogai wedi dechrau cael ei gyflogi ar unrhyw adeg yn ystod yr wythnos gyntaf er mwyn crynhoi’r 26 wythnos o wasanaeth sy’n ofynnol. Rhaid i’r gwasanaeth di-dor ymestyn i’r wythnos gymhwys ond nid oes yn rhaid i’r cyflogai fod wedi’i gyflogi am yr wythnos honno i gyd.

Mae Tâl Mabwysiadu’r BBC yn cynnwys y Tâl Mabwysiadu Statudol (SAP).

(viii) Tâl Mabwysiadu Statudol

Mae’r meini prawf cymhwyso ar gyfer Tâl Mabwysiadu Statudol yr un fath â’r rhai ar gyfer Tâl Mabwysiadu’r BBC uchod; ac mae’n rhaid i’r cyflogai ennill mwy na’r Terfyn Enillion Isaf a bennir gan y Llywodraeth.

Telir Tâl Mabwysiadu Statudol (SAP) ar gyfradd o 90% o enillion cyfartalog am chwe wythnos gyntaf yr absenoldeb mabwysiadu a’r lleiaf o naill ai’r gyfradd SAP wythnosol neu 90% o enillion wythnosol cyfartalog am y 33 wythnos ddilynol.

Enillion wythnosol cyfartalog yw'r enillion gros cyfartalog dros gyfnod o wyth wythnos o leiaf hyd at y diwrnod cyflog olaf cyn diwedd yr Wythnos Baru, ac yn cynnwys y diwrnod hwnnw.

Os yw'r cyfrifiad ar gyfer chwe wythnos gyntaf y SAP yn arwain at daliad uwch na Thâl Mabwysiadu'r BBC yna telir y taliad uwch.

Bydd unrhyw absenoldeb mabwysiadu ar ôl y 39 wythnos yn ddi-dâl. Os bydd y contract cyflogaeth yn terfynu cyn y 18 wythnos yna bydd Taliad Mabwysiadu'r BBC yn daladwy hyd at y dyddiad terfynu'n unig; fodd bynnag, bydd unrhyw hawl i gael SAP yn parhau y tu hwnt i'r dyddiad hwn.

Bydd Taliad Mamolaeth y BBC a SAP ill dau yn dechrau ar yr un diwrnod sef y diwrnod pan fydd yr absenoldeb mabwysiadu yn cychwyn.

Bydd rhieni sy'n mabwysiadu yn cael cyfnod rhesymol o absenoldeb â thâl i fynychu unrhyw gyfarfodydd ffurfiol gorfodol ac ymddangosiadau llys sy'n ofynnol wrth fabwysiadu. Yr hawl sylfaenol i'r prif fabwysiadwr yw amser i ffwrdd â chyflog i fynychu hyd at bum apwyntiad mabwysiadu. Mae gan y rhiant arall hawl i gael absenoldeb a thâl i fynychu dau apwyntiad o leiaf. Bydd angen dangos tystiolaeth o'r angen i fod yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn.

4. Tâl ac Absenoldeb Rhiant a Rennir

d) Absenoldeb Rhiant a Rennir

Mae gan gyflogeion sy'n gymwys i gael Absenoldeb Rhiant a Rennir ('SPL') hawl i rannu hyd at 50 o wythnosau o absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu â'u partner er mwyn gofalu am eu plentyn.

Yn syth ar ôl rhoi genedigaeth, mae'n orfodol bod mam y plentyn yn cymryd pythefnos gyntaf y 52 wythnos o absenoldeb mamolaeth y mae ganddi hawl i'w gymryd i ffwrdd o'r gwaith. Mae hyn yn golygu, yng nghyswllt rhoi genedigaeth, fod hyd at 50 wythnos o SPL ar gael i'w rannu â phartner y fam. Yng nghyswllt mabwysiadu, ni ellir cymryd SPL yn ystod pythefnos gyntaf absenoldeb mabwysiadu. Felly, mae hyn yn golygu bod hyd at 50 wythnos o SPL ar gael i'w rannu yng nghyswllt mabwysiadu hefyd. Yng nghyswllt geni plentyn a mabwysiadu, mae unrhyw hawl i'r 50 wythnos o SPL yn lleihau yn unol â nifer yr wythnosau o absenoldeb mamolaeth y mae'r fam yn eu cymryd, faint o absenoldeb mabwysiadu y mae'r prif ofalwr yn ei gymryd a faint bynnag o SPL a gymerir gan y naill a'r llall.

Felly, mae'n rhaid cymryd SPL cyn pen-blwydd cyntaf y babi neu o fewn blwyddyn i fabwysiadu'r plentyn.

Gall cyflogeion cymwys gymryd SPL mewn cyfnod parhaus neu fel blociau ar wahân sy'n o leiaf wythnos o hyd (gan alluogi cyflogeion i weithio a chymryd absenoldeb bob yn ail) Cytunir ar hysbysiadau sy'n nodi manylion absenoldeb ysbeidiol yn unol â disgresiwn y BBC, gan ystyried gofynion gweithredol. Ar ôl cydymffurfio â gofynion hysbysu (manyion isod), gall rhieni gymryd SPL ar yr un pryd â'i gilydd. Mae gan weithwyr cymwys hawl i gyflwyno hyd at dri hysbysiad i wneud cais am gyfnodau o absenoldeb.

I fod yn gymwys i gael tâl ac absenoldeb, mae'n rhaid i **gyflogeion y BBC** fodloni'r canlynol:

- bod yn fam, yn dad neu'n brif fabwysiadwr i'r plentyn, neu'n bartner i'r fam neu'r prif fabwysiadwr (cael eu hadnabod fel y rhiant);

- rhannu'r prif gyfrifoldeb dros ofal y plentyn â'r rhiant arall;
- bod ag o leiaf 26 wythnos o wasanaeth parhaus ar y 15^{fed} wythnos cyn wythnos esgor ddisgwyliedig neu'r wythnos y rhoddwyd gwybod i'r prif fabwysiadwr ei fod wedi cael ei baru â'r plentyn i'w fabwysiadu (sef yr 'wythnos berthnasol');
- bod â'r hawl i gael absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb mabwysiadu statudol (neu i gael tâl mamolaeth statudol neu dâl mabwysiadu neu lwfans mamolaeth), neu fod â phartner sydd â'r hawl i gael y rheini;
- bod mewn cyflogaeth barhaus tan yr wythnos cyn y cymerir unrhyw SPL ac yn ystod y cyfnod o absenoldeb;
- cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran hysbysu a datgan a grynhoir isod.
- bod ag enillion wythnosol cyfartalog sy'n hafal i'r Terfyn Enillion Isaf (a bennir gan y llywodraeth) neu'n uwch, yn ystod yr wythnos sy'n dod i ben ar yr wythnos gymhwysu neu'r wythnos baru.

Yn ogystal â hynny, mae'n rhaid i'r **rhiant arall** (sy'n gweithio i'r BBC neu'n allanol) fodloni'r canlynol:

- bod ag o leiaf 26 wythnos o gyflogaeth (cyflogedig neu hunangyflogedig) allan o'r 66 wythnos cyn yr 'wythnos berthnasol';
- bod ag enillion wythnosol cyfartalog o leiafswm o £30 yn ystod o leiaf 13 o'r 66 wythnos cyn yr wythnos berthnasol.

e) Tâl Rhiant a Rennir

(iii) Tâl Rhiant a Rennir y BBC

Tâl Rhiant a Rennir y BBC yw tâl sylfaenol ac unrhyw lwfansau sy'n parhau (nid yw'n cynnwys taliadau ychwanegol) am hyd at 18 wythnos, gyda 19 wythnos o Dâl Rhiant a Rennir Statudol i ddilyn (37 wythnos i gyd, sy'n ystyried bod y tâl am y bythefnos gyntaf y mae gan gyflogeion hawl iddi o'r 39 wythnos o dâl statudol wedi cael ei dalu fel tâl mamolaeth neu dâl mabwysiadu statudol).

Bydd unrhyw daliad a gafwyd mewn perthynas â Thâl Mamolaeth y BBC, Tâl Mabwysiadu'r BBC neu Dâl Tadolaeth y BBC yn lleihau'r hyn sy'n daladwy yng nghyswllt hawl cyflogai i gael 18 wythnos o Dâl Rhiant a Rennir y BBC, os yw'r tâl mamolaeth, mabwysiadu neu dadolaeth yn ymwneud â'r un plentyn â'r un y mae'r rhiant yn derbyn Tâl Rhiant a Rennir y BBC ar ei gyfer.

Bydd unrhyw dâl mamolaeth, tâl mabwysiadu neu dâl rhiant a rennir ategol y mae partner y cyflogai yn ei gael gan ei gyflogwr (lle nad y BBC yw'r cyflogwr hwnnw) yn lleihau hawl y cyflogai i 18 wythnos o Dâl Rhiant a Rennir y BBC yn unol â nifer yr wythnosau o dâl ategol y mae partner y cyflogai yn ei gael, os yw'r tâl ategol yn ymwneud â'r un plentyn y mae'r cyflogai yn hawlio Tâl Rhiant a Rennir y BBC ar ei gyfer.

Does dim byd yn y polisi hwn a fydd yn effeithio ar hawl cyflogai i gael Tâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol, Tâl Mabwysiadu Statudol na Thâl Rhiant a Rennir Statudol.

I fod yn gymwys i gael Tâl Rhiant a Rennir y BBC, mae'n rhaid i'r cyflogai gydymffurfio â'r gofynion hysbysu a nodir isod, a hynny yn y 15fed wythnos cyn yr wythnos esgor ddisgwyliedig (yr wythnos gymhwysu) neu'r wythnos y cafodd hysbysiad ffurfiol ei fod wedi'i baru â phlentyn (yr wythnos baru):

- Bod yn un o gyflogeion y BBC;
- Bod wedi'i gyflogi'n barhaus am o leiaf 26 wythnos.

Mae'n ddigon bod y cyflogai wedi dechrau cael ei gyflogi ar unrhyw adeg yn ystod yr wythnos gyntaf er mwyn crynhoi'r 26 wythnos o wasanaeth sy'n ofynnol. Rhaid i'r gyflogaeth ddi-dor ymestyn i'r wythnos gymhwysu neu'r wythnos baru ond nid oes yn rhaid i'r cyflogai fod wedi'i gyflogi am yr wythnos honno i gyd.

Mae Tâl Rhiant a Rennir y BBC yn cynnwys y Tâl ar y Cyd Statudol i Rieni (SShPP) sy'n daladwy. I osgoi amheuaeth, bydd yr hawl i Dâl Rhiant a Rennir y BBC wedi'i gyfyngu i 18 wythnos rhwng dau riant mewn amgylchiadau lle mae dau riant y plentyn dan sylw, sydd â hawl i gael Tâl Rhiant a Rennir y BBC, yn gweithio i'r BBC.

(iv) Tâl Rhiant a Rennir Statudol

Mae'r meini prawf cymhwyso ar gyfer Tâl Rhiant a Rennir Statudol yr un fath â'r rhai ar gyfer Tâl Rhiant a Rennir y BBC uchod; ac mae'n rhaid i'r cyflogai ennill mwy na'r Terfyn Enillion Isaf a bennir gan y Llywodraeth.

Caiff y SShPP ei dalu ar y raddfa wythnosol statudol (neu 90% o enillion arferol y gweithiwr os yw hwn yn is). Mae uchafswm o 39 wythnos o SShPP yn daladwy, a bydd hwn yn cael ei leihau yn unol â nifer yr wythnosau o dâl mamolaeth/mabwysiadu neu lwfans mamolaeth sydd wedi'i gymryd eisoes.

Enillion wythnosol cyfartalog yw enillion gros cyfartalog dros gyfnod o wyth wythnos o leiaf hyd at y diwrnod cyflog olaf cyn diwedd yr wythnos baru neu'r wythnos gymhwysu, ac yn cynnwys y diwrnod hwnnw.

Os yw'r cyfrifiad ar gyfer chwe wythnos gyntaf yr SShPP yn arwain at daliad uwch na Thâl Rhiant a Rennir y BBC yna telir y taliad uwch.

Bydd unrhyw Absenoldeb Rhiant a Rennir ar ôl 37 wythnos yn ddi-dâl. Os bydd y contract cyflogaeth yn terfynu cyn 18 wythnos yna bydd Tâl Rhiant a Rennir y BBC yn daladwy hyd at y dyddiad terfynu'n unig; fodd bynnag, bydd unrhyw hawl i gael SShPP yn parhau y tu hwnt i'r dyddiad hwn.

Bydd Tâl Rhiant a Rennir y BBC a SShPP ill dau yn dechrau ar yr un diwrnod sef y diwrnod pan fydd yr absenoldeb rhiant a rennir yn cychwyn.

f) Gofynion Hysbysu

Caiff cyflogeion eu hannog i drafod yn anffurfiol â'u rheolwr ynglŷn â'u bwriad i gymryd SPL ac i sicrhau bod unrhyw gynlluniau ar gyfer cyfnodau ysbeidiol o absenoldeb yn gallu cael eu hystyried cyn gynted â phosibl. Mae'r ymarfer hefyd yn lleihau'r risg o wastraffu un o'r tri hysbysiad ar drefniant ysbeidiol nad oes modd ei fodloni.

Hefyd mae'n rhaid bodloni'r gofynion hysbysu a datgan canlynol.

Rhaid i'r fam/prif fabwysiadwr gyflwyno 'Hysbysiad Cwtogi' i'r BBC (wedi'i gynnwys yn yr Hysbysiad o Hawl a Bwriad i Gymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir) o leiaf wyth wythnos cyn y dyddiad y bydd ei absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu yn dod i ben. Mae'r Hysbysiad Cwtogi yn rhwymol oni bai am y canlynol:

- ei fod yn cael ei roi cyn yr enedigaeth a'i dynnu'n ôl cyn pen chwe wythnos i'r enedigaeth (yn yr achos hwn gellir cyflwyno hysbysiad cwtogi arall);
- nid oes gan yr un o'r rhieni hawl i gael SPL neu SShPP; neu
- mae'r rhiant arall yn marw.

Os mai dim ond hawl i gael lwfans mamolaeth sydd gan y fam, mae'n rhaid i'w hysbysiad ynghylch cwtogi ei lwfans gael ei gyflwyno i'r Ganolfan Byd Gwaith. Ni ellir adfer y lwfans.

Ar yr un pryd, rhaid i gyflogeion roi 'Hysbysiad o Hawl a Bwriad o Gymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir' i'w rheolwr o leiaf 8 wythnos cyn dechrau'r cyfnod cyntaf o SPL (bydd hyn yn nodi'r cyfnod cyntaf o SPL o leiaf, ond fe allai roi manylion cyfnodau ysbeidiol o absenoldeb pellach). Rhaid i'r hysbysiad hefyd gynnwys datganiadau penodol gan y fam a'r rhiant arall sy'n rhannu'r absenoldeb e.e. cadarnhad o gymhwysedd, sut rydych chi a'ch partner yn bwriadu defnyddio'r hawl i gael tâl ac absenoldeb a chwtogi'r absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu neu lwfans mamolaeth, lle y bo hynny'n briodol.

Os na fydd hysbysiad rhwymol o ddyddiadau absenoldeb yn cael ei ddarparu fel rhan o'r ddogfen Hysbysiad o Hawl a Bwriad i Gymryd SPL (nid yw hwn yn ofyniad o reidrwydd os caiff yr hysbysiad ei ddarparu fwy nag wyth wythnos cyn y dyddiadau o absenoldeb arfaethedig) bydd yn rhaid i'r cyflogeion nodi eu cyfnod(au) SPL terfynol drwy roi 'Hysbysiad ynghylch Cyfnod o Absenoldeb Rhiant a Rennir' i'w rheolwr **o leiaf wyth wythnos** cyn dyddiad dechrau'r cyfnod cyntaf o SPL. Mae gan gyflogeion hawl i gyflwyno dau 'Hysbysiad ynghylch Cyfnod o Absenoldeb Rhiant a Rennir' arall, ac mae'n rhaid i'r ddau gael eu cyflwyno **o leiaf wyth wythnos** cyn dechrau'r cyfnod o absenoldeb.

Mae gan gyflogeion hawl i gymryd cyfnod parhaus o absenoldeb, fel y nodir ym mhob 'Hysbysiad ynghylch Cyfnod o Absenoldeb Rhiant a Rennir'. Fodd bynnag, os caiff mwy nag un cyfnod o absenoldeb (h.y. cyfnod ysbeidiol) ei nodi yn yr hysbysiad, bydd patrwm yr absenoldeb yn amodol ar gymeradwyaeth gan y rheolwr; bydd y BBC yn ymdrechu i fodloni'r patrwm ond ni ellir gwarantu hynny. Gellir awgrymu neu drafod patrwm o absenoldeb gwahanol, neu gellir gwrthod y patrwm.

Lle mae hysbysiad sy'n nodi cyfnod o absenoldeb ysbeidiol wedi cael ei gyflwyno ac nad oes cytundeb wedi'i gyrraedd ar ôl pythefnos, gall y cyflogai wneud y canlynol:

- cymryd yr absenoldeb ysbeidiol fel un bloc o'r dyddiad dechrau a nodir ar yr hysbysiad;
- cymryd y bloc parhaus gan ddechrau ar ddyddiad dechrau newydd (cyn belled â bod y dyddiad yn hwyrach na dyddiad dechrau'r hysbysiad a bod y cyflogai yn rhoi gwybod i'r BBC am y dyddiad newydd cyn pen pythefnos a phum diwrnod i gyflwyno'r hysbysiad);
- tynnu'r hysbysiad yn ôl, hyd at y 15^{fed} diwrnod ar ôl iddo gael ei gyflwyno'n wreiddiol (yn yr achos hwnnw, ni fydd yn cyfrif tuag at yr uchafswm o dri Hysbysiad ynghylch Cyfnod o Absenoldeb y gall cyflogeion eu cyflwyno).

Gall cyflogeion gyflwyno 'Hysbysiad i Amrywio Cyfnod o SPL' lle bo'r amrywiad yn golygu:

- amrywio'r dyddiad dechrau neu'r dyddiad gorffen (cyn belled â bod yr hysbysiad yn cael ei gyflwyno o leiaf 8 wythnos cyn y dyddiad dechrau gwreiddiol a'r dyddiad dechrau newydd);
- newid neu ganslo hyd yr absenoldeb a nodir yn yr hysbysiad o leiaf 8 wythnos cyn y dyddiad dechrau gwreiddiol;
- rhoi gwybod i'r BBC bod un cyfnod di-dor o absenoldeb yn troi'n gyfnodau ysbeidiol, neu i'r gwrthwyneb. Lle bo cyfnod ysbeidiol wedi'i nodi, rhaid dod i gytundeb cyn pen pythefnos; gweler y darpariaethau uchod.

Bydd amrywiadau yn cyfrif fel un o'r tri Hysbysiad ynghylch Cyfnod o Absenoldeb ac eithrio'r amgylchiadau canlynol:

- ceir newid oherwydd bod y babi wedi cael ei eni'n gynt neu'n hwyrach na'r wythnos esgor ddisgwylidig;
- y BBC sydd wedi gofyn bod yr amrywiad yn cael ei wneud;
- mae'r BBC wedi cytuno (yn unol â'i ddisgresiwn) i dderbyn mwy na thri Hysbysiad ynghylch Cyfnod o Absenoldeb.

Gellir addasu'r gofyniad wyth wythnos lle caiff y babi ei eni'n fuan, yn yr achos hwn dylid rhoi hysbysiad ynghylch newid y dyddiad dechrau cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol o fewn rheswm ar ôl yr enedigaeth.

Mae'r BBC yn cadw'r hawl i ofyn i gyflogeion ddarparu copiâu o'r canlynol: (a) naill ai'r dystysgrif geni (neu ddatganiad wedi'i lofnodi o ddyddiad a lleoliad geni'r plentyn os nad yw'r dystysgrif geni wedi dod i law eto) neu un neu fwy o ddogfennau gan yr asiantaeth fabwysiadu yn dangos enw'r asiantaeth a'r diwrnod trosglwyddo disgwylidig; a (b) enw a chyfeiriad y cyflogai neu bartner y cyflogai (neu ddatganiad nad oes ganddynt gyflogai). Mae'r BBC yn cadw'r hawl i gysylltu â chyflogwr partner y cyflogai i gadarnhau a dilysu'r hawliau sydd ganddo i gael tâl ac absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu a rhiant a rennir, a'r hyn y mae wedi'i gymryd.

5. Diwrnodau Cadw mewn Cysylltiad

Gall cyflogeion sydd ar absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu neu absenoldeb rhiant a rennir, weithio diwrnodau 'Cadw mewn Cysylltiad' yn ystod eu habsenoldeb heb orfod dod â'r absenoldeb i ben; gellir gweithio hyd at 10 diwrnod Cadw mewn Cysylltiad yn ystod absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu. Gall cyflogeion ar absenoldeb rhiant a rennir ymgymryd â hyd at 20 o Ddiwrnodau Cyswllt i Rieni a Rennir (diwrnodau SPLIT), yn ogystal ag unrhyw ddiwrnodau Cadw mewn Cysylltiad eraill sydd eisoes wedi'u cymryd yn ystod cyfnod o absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu.

Nid oes raid i'r BBC i gynnig dyddiau KIT ac nid oes raid i'r cyflogai weithio dyddiau KIT. Rhaid cytuno ar ddyddiau KIT ymlaen llaw gyda'r rheolwr ac ni ellir eu gweithio yn ystod y cyfnod o absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu gorfodol, h.y. 2 wythnos ar ôl dyddiad yr enedigaeth neu drosglwyddo'r plentyn i ofal y cyflogai.

Mae diwrnod KIT wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw waith a fyddai fel arfer yn cael ei wneud o dan y contract cyflogaeth. Bydd diwrnod KIT yn cael ei gyfrif fel cyfnod ar ddyletswydd felly ni fydd yn ddim hwy nag oriau gwaith arferol ar gyfer shifft, ond gall fod yn fyrrach.

Telir am ddyddiau KIT ar raddfa gyflog sylfaenol fesul awr / diwrnod y cyflogai a lwfansau sy'n parhau. Os bydd cyflogai yn cymryd diwrnod KIT ac yn dal i gael Taliad Rhiant a Rennir, Mamolaeth neu Fabwysiadu y BBC neu Statudol, bydd y taliad KIT yn cynnwys y taliad hwn.

Os bydd contract yn dod i ben yn ystod y cyfnod o absenoldeb, ni fydd y contract yn cael ei ymestyn i gynnwys dyddiau KIT.

6. Tâl ac Absenoldeb Tadolaeth

b) Absenoldeb Tadolaeth

Mae'r darpariaethau canlynol yn berthnasol i bartneriaid y rhiant/prif ofalwr, gan gynnwys y rheini sydd o'r un rhyw, yn amodol ar fodloni'r gofynion cymhwysedd.

Gall cyflogeion sy'n bodloni'r holl feini prawf canlynol gymryd hyd at bythefnos o Absenoldeb Tadolaeth a byddant yn cael Tâl Tadolaeth y BBC (sy'n cynnwys tâl tadolaeth statudol 'SPP'), yn amodol ar y meini prawf cymhwysedd canlynol:

- Genedigaeth: y cyflogai yw tad biolegol y plentyn ac mae ganddo (neu mae'n disgwyl cael) cyfrifoldeb am fagu'r plentyn, neu ef yw gŵr, partner sifil neu bartner y fam (ond nid tad biolegol y plentyn) ac mae'n disgwyl ymgymryd â'r prif gyfrifoldeb (ac eithrio cyfrifoldeb y fam) am fagu'r plentyn;
- Mabwysiadu: Rhaid mai'r cyflogai yw tad biolegol y plentyn a/neu'r unigolyn sydd wedi'i baru â phlentyn gan Asiantaeth Fabwysiadu a/neu ef yw gŵr, partner sifil neu bartner y fam/mabwysiadwr.
- Rhaid i'r absenoldeb fod er mwyn gofalu am y plentyn neu ei gefnogi;
- Rhaid i'r cyflogai fod wedi'i gyflogi gan y BBC ac ymgymryd â 26 wythnos o wasanaeth:
 - Genedigaeth: yn arwain i mewn i'r 15fed wythnos cyn yr wythnos esgor ddisgwyliedig (EWC);
 - Mabwysiadu yn y DU: yn arwain i mewn i'r wythnos pan mae'r cyflogai yn cael gwybod gan Asiantaeth Fabwysiadu ei fod wedi cael ei 'baru' â phlentyn;
 - Mabwysiadu dramor: yn arwain i mewn i'r wythnos pan gafodd hysbysiad swyddogol ei anfon, ar ôl iddo gwblhau 26 wythnos o wasanaeth parhaus os yw hyn yn hwyrach.

Gall cyflogeion ddewis cymryd wythnos neu bythefnos o Absenoldeb Tadolaeth yn olynol; ni ellir ei gymryd fel diwrnodau unigol na rhannau o wythnosau. Gellir cymryd absenoldeb tadolaeth o ddyddiad yr enedigaeth y plentyn neu pan gaiff y plentyn ei drosglwyddo i'w ofal ond mae'n rhaid iddo ddod i ben cyn pen 56 diwrnod i enedigaeth y plentyn (neu cyn pen 56 diwrnod i ddiwrnod cyntaf yr EWC os cafodd ei eni cyn yr EWC) neu ddyddiad trosglwyddo'r plentyn.

Dylai cyflogai sy'n bwriadu cymryd Absenoldeb Tadolaeth ddweud wrth ei reolwr erbyn y 15fed wythnos cyn yr EWC neu cyn pen saith diwrnod i gael gwybod ei fod wedi cael ei baru â phlentyn, oni bai fod hyn ddim yn ymarferol o fewn rheswm.

Gall cyflogai newid dyddiad dechrau ei Absenoldeb Tadolaeth os yw'n rhoi gwybod i'w reolwr am y canlynol 28 diwrnod ymlaen llaw:

- diwrnod cyntaf yr EWC neu ddiwrnod disgwyliedig trosglwyddo'r plentyn; neu
- y dyddiad newydd y mae'n dymuno dechrau ei Absenoldeb Tadolaeth arno, oni bai fod hyn ddim yn ymarferol o fewn rheswm; yn yr achosion hynny, dylai ddweud wrth y BBC cyn gynted â phosibl.

(iii) Tâl Tadolaeth y BBC

Tâl Tadolaeth y BBC yw tâl sylfaenol ac unrhyw lwfansau sy'n parhau (nid yw'n cynnwys unrhyw daliadau ychwanegol) am hyd at 2 wythnos. Tâl sylfaenol yw'r tâl sylfaenol ar y diwrnod cyflog olaf cyn dechrau eich absenoldeb tadolaeth.

I fod yn gymwys i gael Tâl Tadolaeth y BBC, mae'n rhaid i'r cyflogai gydymffurfio â'r gofynion hysbysu a nodir isod, a hynny yn y 15^{fed} wythnos cyn yr wythnos esgor ddisgwyliedig (yr wythnos gymhwyso) neu'r wythnos y cafodd hysbysiad ffurfiol ei fod wedi'i baru â phlentyn (yr wythnos baru):

- fod yn un o gyflogeion y BBC; a
- bod wedi'i gyflogi am gyfnod di-dor o 26 wythnos o leiaf.

Mae'n ddigon bod y cyflogai wedi dechrau cael ei gyflogi ar unrhyw adeg yn ystod yr wythnos gyntaf er mwyn crynhoi'r 26 wythnos o wasanaeth sy'n ofynnol. Rhaid i'r gwasanaeth di-dor ymestyn i'r wythnos gymhwyso ond nid oes yn rhaid i'r cyflogai fod wedi'i gyflogi am yr wythnos honno i gyd.

Mae Tâl Tadolaeth y BBC yn cynnwys y Tâl Tadolaeth Statudol (SPP).

(iv) Tâl Tadolaeth Statudol

Mae'r meini prawf cymhwyso ar gyfer Tâl Tadolaeth Statudol yr un fath â'r rhai ar gyfer Tâl Tadolaeth y BBC uchod; a rhaid i'r gweithiwr ennill mwy na Therfyn Enillion Isel y Llywodraeth.

Telir SPP ar gyfradd o 90% o enillion cyfartalog am chwe wythnos gyntaf yr absenoldeb mabwysiadu a'r lleiaf o naill ai'r gyfradd SAP wythnosol neu 90% o enillion wythnosol cyfartalog am y 33 wythnos ddilynol.

Enillion wythnosol cyfartalog yw'r enillion gros cyfartalog dros gyfnod o wyth wythnos o leiaf hyd at y diwrnod cyflog olaf cyn diwedd yr Wythnos Baru, ac yn cynnwys y diwrnod hwnnw.

Os yw'r cyfrifiad ar gyfer chwe wythnos gyntaf yr SAP yn arwain at daliad uwch na Thaliad Tadolaeth y BBC yna telir y taliad uwch.

Bydd gofyn i gyflogeion lenwi hunan-ardystiad fel tystiolaeth o'u hawl i gael Tâl ac Absenoldeb Tadolaeth Statudol.

7. Genedigaethau cynamserol

a) Mamolaeth, Rhannu Rhieni, Mabwysiadu a Throsglwyddiaeth

Os caiff babi ei eni'n gynamserol (cyn 37 wythnos), bydd gan y cyflogai yr hawl i gael absenoldeb ychwanegol a thâl llawn am nifer y diwrnodau y mae eu babi'n cael eu geni i'r dyddiad geni disgwyliedig gwreiddiol. Bydd yr hawl i absenoldeb a thâl hwn yn cael ei ychwanegu at ddiwedd cyfnod gadael y gweithiwr.

b) Cyfnod Tadolaeth

Os caiff baban ei eni'n gynamserol (cyn 37 wythnos), bydd hawl gan bartneriaid cyflogeion sydd wedi rhoi genedigaeth i fabanod cynamserol i gael pythefnos o absenoldeb ychwanegol a thâl llawn. Bydd yr hawl i'r absenoldeb hwn yn cael ei ychwanegu at ddiwedd cyfnod tadolaeth y gweithiwr.

8. Absenoldeb Rhiant

Mae cyflogeion sy'n bodloni'r meini prawf canlynol yn gymwys i gymryd hyd at 18 wythnos o Absenoldeb Rhiant heb dâl, yng nghyswllt unrhyw blentyn (diffinnir wythnos o absenoldeb yn yr un modd â gwyliau blynyddol). Mae'n rhaid i'r cyflogai fodloni'r canlynol:

- wedi bod mewn cyflogaeth barhaus am o leiaf flwyddyn;
- bod wedi'i enwi ar dystysgrif geni neu dystysgrif mabwysiadu'r plentyn;
- bod â chyfrifoldeb rhiant, neu ddisgwyl cael hynny;
- peidio â bod yn rhiant maeth (oni bai ei fod wedi sicrhau chyfrifoldeb rhiant drwy'r llysoedd);
- bod â phlentyn o dan 18 oed.

Mae'r absenoldeb hwn ar ben unrhyw gymhwysedd i gael Absenoldeb Tadolaeth.

Mae'n rhaid bod gan y cyflogai gyfrifoldeb cyfreithiol dros y plentyn yn rhinwedd genedigaeth neu fabwysiadu, neu mewn achosion nad oes ganddo gyfrifoldeb cyfreithiol, ei fod yn bartner i'r sawl sy'n ymgymryd â'r brif rôl o ofalu am y plentyn. Gall y BBC ofyn am dystiolaeth o gymhwysedd gan y cyflogai.

Ni ellir ymarfer yr hawl i gael absenoldeb rhiant ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 18 oed.

Gellir cymryd absenoldeb rhiant, yn amodol ar anghenion gweithredol, hyd at yr uchafswm o bedair wythnos y ceir hawl i'w cymryd yn ystod unrhyw flwyddyn ar gyfer pob plentyn. Rhaid cymryd absenoldeb rhiant fesul wythnosau llawn (e.e. wythnos neu bythefnos) yn hytrach na diwrnodau unigol, oni bai fod eich plentyn yn anabl; fe ganiateir diwrnodau unigol yn yr achosion hynny.

Gofynnir i gyflogeion roi 21 diwrnod o rybudd i'w rheolwr eu bod yn bwriadu cymryd Absenoldeb Rhiant. Fodd bynnag, yn amodol ar anghenion gweithredol, gellir lleihau'r gofyniad hysbysu i leiafswm o saith diwrnod.

Ni all y rheolwr ohirio Absenoldeb Rhiant y bwriedir ei gymryd ar adeg yr enedigaeth neu'r mabwysiadu ar yr amod bod camau wedi'u cymryd i'w hysbysu o'r dyddiad disgwylidig a bod pob cam ymarferol wedi'i gymryd i roi saith diwrnod o rybudd o'r dyddiad gwirioneddol.

Mewn amgylchiadau eraill, gall rheolwyr ohirio cyfnod o absenoldeb rhiant os ydynt o'r farn y byddai hyn yn amharu ar weithrediad y busnes y tu hwnt i reswm pe bai'r cyflogai yn cymryd absenoldeb yn ystod y cyfnod a nodwyd. Ni ddylai'r gohirio newid y cyfnod o absenoldeb y gwneir cais amdano, ac mae'n rhaid caniatáu i'r absenoldeb ddechrau dim hwyrach na chwe mis ar ôl y dyddiad dechrau gwreiddiol, gan nodi'r rhesymau dros ohirio a'r diwrnodau newydd yn ysgrifenedig. Rhaid gwneud hyn cyn pen saith diwrnod i hysbysiad gwreiddiol y cyflogai.

Efallai y bydd gofyn i gyflogeion sy'n ymuno â'r BBC o gyflogwr arall, sydd ag absenoldeb rhiant dros ben, ddarparu geirada gan gyn-gyflogwr er mwyn dilysu beth yw hyd yr absenoldeb dros ben y mae ganddo hawl i'w gael.

Bydd absenoldeb rhiant ar sail pro rata i gyflogeion rhan-amser. Mae gwyliau blynyddol yn parhau i gael eu cronni drwy gydol cyfnod yr Absenoldeb Rhiant.

Mae gan gyflogeion hawl i ddychwelyd o Absenoldeb Rhiant i'r rôl roeddent wedi'u cyflogi ynddi cyn yr absenoldeb, neu i rôl sydd â thelerau ac amodau nad ydynt yn llai ffafriol na'r rhai a fyddai wedi bod yn berthnasol pe na bai'r cyflogai wedi bod yn absennol o'r gwaith.

9. Amser o'r gwaith ar gyfer Dibynnyddion

Mae gan gyflogeion hawl statudol i gymryd cyfnod rhesymol o amser di-dâl i ffwrdd o'r gwaith yn ystod oriau gwaith er mwyn cymryd camau angenrheidiol:

- i ddarparu cymorth pan fydd dibynnydd yn sâl, yn rhoi genedigaeth neu'n cael ei anafu neu ei ymosod arno;
- i wneud trefniadau i ddarparu gofal i ddibynnydd sy'n sâl neu wedi'i anafu;
- o ganlyniad i farwolaeth dibynnydd;
- o ganlyniad i rywbeth yn amharu'n annisgwyl ar drefniadau gofal dibynnydd neu eu bod yn dod i ben yn annisgwyl; a/neu
- i ddelio â mater sy'n ymwneud â phlentyn sy'n ddibynnydd, sy'n digwydd yn annisgwyl mewn cyfnod lle mae sefydliad addysg yn gyfrifol am y plentyn.

Mae dibynnydd yn golygu gŵr/gwraig, partner sifil, plentyn, rhiant, unrhyw un sy'n byw yn yr un cartref (nad yw'n weithiwr, tenant, lletywr neu ddisgybl preswyl) neu unrhyw un sy'n dibynnu ar gyflogai am gymorth mewn achosion o salwch neu anaf, neu i wneud trefniadau gofal mewn sefyllfaoedd o'r fath.

Rhaid i'r cyflogai ddweud wrth ei reolwr beth yw'r rheswm dros ei absenoldeb cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol o fewn rheswm, ac am faint y mae'n disgwyl y bydd yn absennol.

Mae Amser o'r Gwaith ar gyfer Dibynnyddion yn absenoldeb di-dâl, fodd bynnag, os bydd cyflogai yn cymryd amser o'r gwaith yn unol â'r darpariaethau hyn, efallai y byddant yn gymwys i gael rhywfaint o'r absenoldeb hwn â thâl, yn unol â'r polisi ar Absenoldeb Eithriadol, ym **Mholisi Absenoldeb y BBC**. Nid yw hyn yn cyfyngu ar hawl cyflogeion i gymryd rhagor o amser o'r gwaith o dan y darpariaethau hyn, ond bydd unrhyw absenoldeb pellach yn ddi-dâl.

10. Gofal Maeth

Lle mae angen cyfnod byr o absenoldeb ar gyflogai oherwydd cyfrifoldebau maethu, gellir caniatáu Absenoldeb Eithriadol yn unol â disgresiwn y rheolwr o dan ddarpariaethau **Polisi Absenoldeb y BBC**. Lle mae angen cyfnod hwy o absenoldeb, bydd cais am Seibiant Gyrfa yn cael ei ystyried o dan **Bolisi Gweithio'n Hyblyg y BBC**.

Gallai rhieni maeth yr awdurdod lleol sy'n ddarpar fabwysiadwyr ac wedi'u hysbysu bod plentyn am gael ei drosglwyddo i'w gofal fod yn gymwys i gael tâl ac absenoldeb mabwysiadu a/neu dâl ac absenoldeb rhiant a rennir. Gall partneriaid darpar fabwysiadwyr fod â'r hawl i gael tâl ac absenoldeb rhiant a rennir a/neu dadolaeth ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

11. IVF

Lle mae angen amser o'r gwaith ar gyflogai i fynychu apwyntiadau meddygol ar gyfer IVF, gellir caniatáu Absenoldeb Eithriadol yn unol â disgresiwn y rheolwr o dan ddarpariaethau **Polisi Absenoldeb y BBC**. Lle mae angen mwy o absenoldeb nag y mae'r darpariaethau Absenoldeb Eithriadol yn ei ganiatáu, gellir dyfarnu absenoldeb di-dâl yn unol â disgresiwn y rheolwr.

Os yw cyflogai yn absennol oherwydd salwch o ganlyniad i'r driniaeth IVF, bydd yr absenoldeb yn cael ei drin yn unol â **Pholisi Absenoldeb oherwydd Iechyd a Salwch y BBC**.

12. Mamau Benthg

Gall cyflogeion y mae eu plentyn wedi cael ei eni drwy drefniant mam fenthg fod â hawl i gael Tâl ac Absenoldeb Mabwysiadu a/neu Dâl ac Absenoldeb Rhiant a Rennir fel prif fabwysiadwr, neu Dâl ac Absenoldeb Tadolaeth a/neu Dâl ac Absenoldeb Rhiant a Rennir Arferol fel y rhiant arall.

Mae hawliau yn amodol ar fodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir uchod a gwneud cais (neu fwriadu gwneud cais) am Orchymyn Rhianta. Mae'r meini prawf ar gyfer gwneud cais am Orchymyn Rhianta wedi'u nodi yn Adran 54 Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008.

Mae gan y ddau riant hawl i gael amser o'r gwaith â thâl i fynychu dau apwyntiad cynnedigol gyda'r fenyw sy'n cario eu plentyn.